**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (SWYDDOGAETHAU AWDURDODAU LLEOL ETC.) (CYMRU) 2020**

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 24 Medi 2020.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Pwynt 3: canllawiau*

2. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi nifer o faterion sy'n ymwneud â'r Rheoliadau a fyddai'n elwa ar ganllawiau pellach, neu ddiweddaru'r canllawiau presennol.

3. Mae swyddogion iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) i ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer defnyddio'r pwerau newydd. Caiff y gweithdrefnau eu cyflwyno fel dogfen ganllawiau maes o law.

*Pwynt 4: personau sy'n berchen ar fangre ac yn ei meddiannu, a'r rheini sy'n gyfrifol am fangre*

4. Mae'r Adroddiad drafft yn ceisio deall a oes gwahaniaeth yn y ffordd y caiff hysbysiadau eu trin ac, os felly, pam y mae gwahaniaeth o'r fath yn ofynnol.

5. Mewn cysylltiad â chyfarwyddydau mangreoedd a chyfarwyddydau digwyddiadau, dim ond yn rheoliad 11 y mae'r ymadrodd "fel arall yn gyfrifol am y fangre" yn ymddangos. Mae hyn er mwyn caniatáu i'r cam gweithdrefnol o roi'r cyfarwyddyd gael ei gwblhau pan fo'n ymddangos i'r person sy'n rhoi'r cyfarwyddyd fod rhywun yn y fangre sy'n gyfrifol am y fangre honno ar adeg rhoi'r cyfarwyddyd ond nad y perchennog na'r meddiannydd yw'r person hwnnw o bosibl. Er hynny, ystyrir ei bod yn briodol y dylai camau i roi rhybudd ymlaen llaw a hawliau apelio mewn cysylltiad â'r mathau hynny o gyfarwyddydau gael eu hanelu at y rheini a chanddynt fuddiant clir yn y cyfarwyddyd (h.y. personau sy'n cynnal busnesau yn y fangre o dan sylw, y rheini sy'n trefnu digwyddiad y mae cyfarwyddyd digwyddiad wedi ei anelu ato neu berchennog neu feddiannydd y fangre y mae'r naill fath o gyfarwyddyd neu'r llall yn ymwneud â hi).

6. Mae cyfarwyddydau mannau cyhoeddus yn gymwys yn fwy cyffredinol i unrhyw dir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo. Felly, ymddengys ei bod yn briodol bod categori ehangach o bersonau a ddylai gael rhybudd ymlaen llaw (pan fo'n rhesymol ymarferol) ac a gaiff apelio yn erbyn cyfarwyddyd sy'n gymwys yn gyffredinol i fan a all gynnwys nifer o fangreoedd.